Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cronfeydd yr UE: Rhaglen Gydweithredu Iwerddon Cymru 2014-2020

## Adroddiad Gweithredu Blynyddol 2017 – Crynodeb

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

# 1. Cyflwyniad

**Dyma'r trydydd Adroddiad Gweithredu Blynyddol ar gyfer Rhaglen Gydweithredu Iwerddon Cymru, sy'n cwmpasu blwyddyn adrodd 2017.**

Mae Rhaglen Gydweithredu Iwerddon Cymru yn rhaglen gwerth €100 miliwn a ariennir drwy Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop yr Undeb Ewropeaidd. Bydd y Rhaglen yn cefnogi gweithrediadau â phartneriaid o Gymru ac Iwerddon, gan ganolbwyntio ar weithgareddau mewn tri maes blaenoriaeth allweddol a fydd yn cyfrannu at gynnig atebion i heriau cyffredin. Bydd Môr Iwerddon yn cael sylw canolog yn y Rhaglen, o gofio natur forol y ffin rhwng Cymru ac Iwerddon a'r manteision sylweddol a all ddeillio o'r adnodd pwysig hwn.




## Ynglŷn â'r Rhaglen

Lluniwyd y Rhaglen ar sail nodi'r heriau cyffredin hynny lle y gall ymyrraeth ddarparu'r gwerth ychwanegol mwyaf. Gweledigaeth y Rhaglen yw darparu'r fframwaith fel y gall sefydliadau yn yr ardal drawsffiniol gydweithredu'n ymarferol i fynd i'r afael â'r heriau a'r blaenoriaethau o fudd cyffredin i'r naill ochr a'r llall o Fôr Iwerddon – gan gyfrannu ac ychwanegu at werth blaenoriaethau datblygu economaidd a chynaliadwy Cymru ac Iwerddon.

Mae'r Rhaglen yn canolbwyntio'n glir ar Fôr Iwerddon a rhagor o gyfleoedd i harneisio talentau'r arbenigwyr gwyddonol sydd ag enw rhyngwladol yn ardal y Rhaglen i gynyddu capasiti a gwybodaeth am y newid yn yr hinsawdd. Bydd cyfleoedd i gysylltu sefydliadau AB a BBaChau yn ardal y Rhaglen trwy gydweithredu, gan dargedu ein strategaethau arbenigo craff cyfrannol, yn ysgogi gweithgarwch arloesi ar y cyd ym meysydd bwyd a diod, gwyddorau bywyd a gwyddorau morol ac amgylcheddol (gan gynnwys ynni adnewyddadwy). Bydd y Rhaglen hefyd yn ceisio defnyddio'r diwylliant, adnoddau a threftadaeth gyfrannol i gynyddu nifer yr ymwelwyr â'r rhanbarth trawsffiniol.

## Rhennir y Rhaglen yn bedwar maes blaenoriaeth:

### Blaenoriaeth 1: Arloesi Trawsffiniol

- Cynyddu dwysedd cydweithrediadau trosglwyddo gwybodaeth sy'n cynnwys sefydliadau ymchwil a BBaChau yn unol â blaenoriaethau cyfrannol y strategaethau arbenigo craff.

### Blaenoriaeth 2: Y ffordd y mae Môr Iwerddon a Chymunedau Arfordirol yn addasu i Newid yn yr Hinsawdd

- Cynyddu capasiti a gwybodaeth am addasu i'r newid yn yr hinsawdd ar gyfer Môr Iwerddon a chymunedau arfordirol.

### Blaenoriaeth 3: Treftadaeth ac Adnoddau Naturiol a Diwylliannol

- Gwireddu potensial asedau naturiol a diwylliannol mewn modd cynaliadwy i gynyddu nifer yr ymwelwyr â chymunedau arfordirol yn ardal y Rhaglen.

### Blaenoriaeth 4: Cymorth Technegol

- Sicrhau y caiff y Rhaglen ei rheoli'n effeithlon ac yn effeithiol.

## Y gyllideb a oedd ar gael o dan bob un o Flaenoriaethau'r Rhaglen:

| Blaenoriaeth | Cyllideb yr UE | Cyfanswm y Gyllideb[1] |
|---|---|---|
| Blaenoriaeth 1: Arloesi Trawsffiniol | €32m | €40m |
| Blaenoriaethy 2: Y ffordd y mae Môr Iwerddon a Chymunedau Arfordirol yn addasu i Newid yn yr Hinsawdd | €28m | €35m |
| Blaenoriaeth 3: Treftadaeth ac Adnoddau Naturiol a Diwylliannol | €15m | €19m |
| Blaenoriaeth 4: Cymorth Technegol | €5m | €6m |
| **Cyfanswm oedd ar gael o'r Rhaglen** | **€79m** | **€99m** |

[1] The amount from the EU Budget combined with match funding

Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) yw'r Awdurdod sy'n Rheoli'r Rhaglen a bydd yn adeiladu ar gynllun tair ochrog a datblygiad y Rhaglen â'i phartneriaid gweithredol, Cynulliad Rhanbarthol y De (SRA) yn Waterford, a phartneriaid llywodraeth, yr Adran Gwariant Cyhoeddus a Diwygio (DPER) yn Nulyn, i gyflawni'r Rhaglen.

Mae rhagor o wybodaeth am y Rhaglen ar gael ar wefan Rhaglen Gydweithredu Iwerddon Cymru yn https://irelandwales.eu/cy

# 2. Cynnydd y Rhaglen

## Trosolwg

Erbyn diwedd 2017, roedd €42.5 miliwn o gyllid yr UE wedi'i fuddsoddi mewn deuddeg o brosiectau, gan arwain at gyfanswm o €53 miliwn o fuddsoddiad yn yr ardal drawsffiniol.


Yn ystod 2017, cymerwyd nifer o gamau gan yr Awdurdod Rheoli a'r Gydysgrifenyddiaeth i godi proffil ac adfywio diddordeb yn y Rhaglen, gan gynnwys ymgyrch Twitter ym mis Mawrth 2017, mwy o weithgareddau hyrwyddo yn Iwerddon, a lansiad cychwyn galwad penodol ar gyfer Blaenoriaeth 3 ym mis Mai 2017.

Mae gwefan Iwerddon Cymru http://irelandwales.eu, a lansiwyd fis Mai 2016, yn parhau i ennyn diddordeb, ac ynghyd â'r cyfrif Twitter @IrelandWales, yn parhau i godi proffil a chynyddu diddordeb yn y Rhaglen.

# Cynnydd Ariannol

Mae'r siart canlynol yn dangos, fesul Blaenoriaeth, gyfanswm cyllid yr UE a fuddsoddwyd mewn prosiectau.

**Siart 1: Cyllid yr UE: Cyllideb, Cymeradwywyd a Gwariwyd**



# 3. Cynnydd fesul Blaenoriaeth

## Blaenoriaeth 1: Arloesi Trawsffiniol

**Cydweithredu rhwng y sefydliadau AU ac AB yn y rhanbarth trawsffiniol a'i BBaChau a throsglwyddo gwybodaeth i BBaChau y rhanbarth y wella perfformiad ac arbenigedd arloesi ar y cyd gan ganolbwyntio ar y blaenoriaethau a rennir yn y strategaethau arbenigo craff.**

Erbyn diwedd 2017 roedd tua 58% o Gyllid yr UE a oedd ar gael o dan y Flaenoriaeth hon wedi'i fuddsoddi mewn chwe phrosiect, gan gynnwys pedwar a gymeradwywyd yn 2017. Y rhain oedd: 'pISCES', technolegau grid clyfar; 'Irish Sea Portal', rhaglen dreialu i brofi cysyniad llunio cysylltiad rhwng Sefydliadau Addysg Uwch a Sefydliadau Ymchwil â'r BBaChau sy'n gweithredu ym Môr Iwerddon; 'Bucanier', prosiect i ddatblygu arloesi agored, gan arwain at glystyrau a rhwydweithiau sy'n canolbwyntio ar y sectorau ynni adnewyddadwy, bwyd a diod a gwyddorau bywyd; a 'More than a Club', cynllun treialu a luniwyd i brofi dull o ddefnyddio clybiau chwaraeon yn ganolfannau a datblygu pedair menter gymdeithasol.

## Astudiaeth Achos: CALIN

Cefnogir y prosiect gwerth €12 miliwn gan €9 miliwn o gyllid yr UE. Mae'r prosiect yn darparu cyfrwng ar draws Iwerddon a Chymru gyfan ar gyfer arloesi a ysgogir gan ddiwydiant ym maes Nanoiechyd (defnyddio nanotechnoleg mewn gofal iechyd).

Mae clwstwr trawsffiniol yn cael ei sefydlu a fydd yn cynnwys sefydliadau addysg uwch gan gynnwys prifysgolion Abertawe, Caerdydd a Bangor yng Nghymru ac UCD, UCC (Tyndall) a Galway yn Iwerddo. Bydd yn gweithio mewn partneriaeth â darparwyr gofal iechyd, diwydiannau lleol a rhyngwladol, i gyflawni datblygiadau technegol ac economaidd ym maes Nanoiechyd.

Hyd yn hyn, mae staff, ymchwilwyr ac academyddion CALIN wedi darparu dros 800 awr o gymorth ac maen nhw'n ymwneud â 141 o BBaChau ledled Cymru ac Iwerddon. Mae staff ymchwil CALIN yn cynnal 20 o brosiectau ymchwil a datblygu gyda BBaChau ar hyn o bryd ac maent yn gweithio gydag 11 BbaChau eraill i ddatblygu prosiectau ymchwil a datblygu a fydd yn cefnogi twf cwmnïau.

Un o'r cwmnïau hyn yw Lumo Liquids sy'n gweithio gyda'r prosiect CALIN i fynd i'r afael ag iechyd y cyhoedd a'r defnydd cynyddol o e-sigaréts sydd wedi ysgogi'r galw'n fyd-eang am suropau blasu. Nid yw'r rhain wedi'u rheoleiddio ar hyn o bryd ac nid oes llawer o ddata wedi'u cyhoeddi am eu heffaith ar iechyd pobl.

Cyn i'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd a'r UE fabwysiadu rheoliadau i fynd i'r afael â hyn, roedd angen dealltwriaeth gyfannol ar Lumo Liquids o gyfansoddiad cemegol suropau blasu e-sigaréts i sicrhau eu bod yn ddiogel i bobl eu defnyddio, a llywio datblygiad cynhyrchion yn y dyfodol. Trwy weithio yn rhan o'r bartneriaeth drawsffiniol rhwng Prifysgol Abertawe, a thrwy ddefnyddio arbenigedd yn y rhyngweithiadau Biolegol a nano ym Mhrifysgol Coleg Dulyn, cynhaliwyd adolygiad systematig o'r cemegau a ddefnyddir i weithgynhyrchu suropau blasu e-sigaréts. Hefyd, lluniwyd trosolwg o effaith fiolegol pob cemegyn a ddefnyddiwyd. Bydd ymchwil dilynol yn asesu sefydlogrwydd suropau blasu e-sigaréts i ddarparu dealltwriaeth o hyd oes cynnyrch ac unrhyw effeithiau iechyd sy'n gysylltiedig â diraddio cemegol wrth i'r cynnyrch heneiddio.

Mae'r prosiect hwn yn datrys her ddatblygiadol i Lumo Liquids ac yn darparu data a fydd yn hysbysu iechyd y cyhoedd ac yn sefydlu dull safonol o weithgynhyrchu suropau blasu e-sigaréts sy'n canolbwyntio ar iechyd pobl.

Yn ogystal â phroses newydd i'r cwmni a data sy'n llywio datblygiad cynnyrch, arweiniodd y prosiect hefyd at lansio cynnyrch newydd ar y farchnad a £45,000 o fuddsoddiad ymchwil a datblygu ychwanegol i barhau â'r ymchwil.

## Blaenoriaeth 2: Y ffordd y mae Môr Iwerddon a Chymunedau Arfordirol yn addasu i Newid yn yr Hinsawdd

**Cynyddu'r wybodaeth am addasu i newid yn yr hinsawdd ac ymwybyddiaeth ohono yng nghymunedau Môr Iwerddon ac arfordirol. Trosglwyddo'r wybodaeth honno ymhlith rhanddeiliaid allweddol a rhannu gwybodaeth yn ehangach â'r cymunedau dan sylw, trwy fuddsoddi mewn prosiectau â'r bwriad o leihau bylchau gwybodaeth.**

Erbyn diwedd 2017 roedd tua 65% o Gyllid yr UE a oedd ar gael o dan y Flaenoriaeth hon wedi'i fuddsoddi mewn pedwar prosiect, gan gynnwys tri a gymeradwywyd yn 2017. Y rhain oedd: 'Acclimatize', prosiect i nodi'r prif bwysau llygredd ar ddyfroedd ymdrochi, datblygu offer asesu i werthuso effaith y newid yn yr hinsawdd a datblygu offer rheoli i gyfyngu ar effaith y newid hwnnw ar ddyfroedd ymdrochi; 'Bluefish', prosiect i ddatblygu canllawiau ac arferion gorau ar gyfer cynaliadwyedd amgylcheddol ac economaidd organebau morol o bwys masnachol ym Môr Iwerddon ac 'Eco-structures', prosiect i archwilio sut y gall cymunedau arfordirol wynebu heriau strategaeth yr UE ar addasu i newid yn yr hinsawdd wrth leihau'r effeithiau ar yr amgylchedd naturiol gymaint â phosibl a chyflawni'r budd ecolegol ac economaidd gymdeithasol eilaidd mwyaf posibl.









# Astudiaeth Achos: CHERISH

Mae CHERISH (Climate Heritage & Environments of Reefs, Islands and Headlands) yn cynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth drawsffiniol o effeithiau newid yn yr hinsawdd, stormydd a thywydd eithafol ar dreftadaeth ddiwylliannol riffiau, ynysoedd a phentiroedd Môr Iwerddon.

Cefnogir CHERISH gan €4.1 miliwn o gyllid yr UE trwy'r Rhaglen, ac mae'n targedu'r bylchau gwybodaeth, ac yn defnyddio technegau arloesol i ddarganfod, asesu, mapio a monitro asedau treftadaeth ar dir a môr. Bydd yn cynyddu ymwybyddiaeth o effeithiau newid yn yr hinsawdd ar dreftadaeth, yn hyfforddi'r gwyddonydd dinesydd, ac yn rhannu'r canlyniadau'n eang. Bydd hefyd yn datblygu arfer gorau a chanllawiau ac yn gwneud argymhellion ar gyfer addasu yn y dyfodol.

Yn dilyn ei lansiad ym mis Mawrth 2017, mae'r prosiect wedi denu diddordeb y cyfryngau, gan gynnwys eitem ar newyddion BBC Wales ar y teledu.

Mae tîm yr arolwg wedi bod allan yn dewis safleoedd ac ardaloedd astudio ar gyfer arolygu ac archwilio yn ystod y pum mlynedd nesaf.

Casglwyd data sylfaenol mewn nifer o leoliadau, gan gofnodi cyflwr presennol henebion hysbys a darganfod rhai newydd hefyd. Mae hyn yn cynnwys cofnodi data geomatig 3D o chwe ynys Cymru, cynnal arolwg drôn o Dunbeg Fort ar Benrhyn Dingle, Swydd Kerry, i greu model 3D cywir o'r safle ac ymweliadau archwilio ar y tir â safleoedd posibl ar gyfer ymchwil palaeoamgylcheddol.

Roedd timau archwilio CHERISH allan yn y maes yn dilyn stormydd mis Hydref 2017 yn asesu'r canlyniadau yn yr ardaloedd astudio yn Swydd Wexford a Sir Benfro. Amlygwyd manteision y monitro sylfaenol a wnaed yn gynharach yn 2017 bryd hyn. Dangosodd awyrluniau a gymerwyd yn ystod yr arolygon sylfaenol yn Iwerddon a gynhaliwyd tua diwedd mis Medi y draethell a'r toriad ym mhen deheuol Llyn Lady's Island cyn y stormydd. Cofnododd awyrluniau o ddrôn wedi'r stormydd gan y Rhaglen Ddarganfod ar 18 Hydref newidiadau i'r draethell, ac ar bwyntiau eraill ar hyd yr arfordir bregus hwn. Bydd monitro hirdymor o'r fath yn parhau yn ystod y prosiect pum mlynedd.





## Blaenoriaeth 3: Treftadaeth ac Adnoddau Naturiol a Diwylliannol

**Cynyddu nifer yr ymwelwyr a gwella twf economaidd cynaliadwy trwy gamau cydweithredu trawsffiniol sy’n cefnogi, cynnal, cadw a hyrwyddo treftadaeth ac asedau diwylliannol a naturiol unigryw cymunedau arfordirol y Rhaglen.**

Erbyn diwedd 2017 roedd tua 11% o Gyllid yr UE a oedd ar gael o dan y Flaenoriaeth hon wedi’i fuddsoddi mewn un prosiect. ‘Celtic Routes’ oedd y prosiect hwn, cynllun treialu i brofi dichonoldeb cyfres o lwybrau twristiaeth trawsffiniol newydd sy’n cyfuno asedau naturiol, diwylliannol a threftadaeth yn Iwerddon a Chymru. Cynyddodd ddiddordeb gan randdeiliaid mewn datblygu prosiectau posibl yn ystod 2017, ac mae un ar ddeg o brosiectau ar y gweill.

## Blaenoriaeth 4: Cymorth Technegol

**Mae Cymorth Technegol yn adnodd hanfodol, a ddefnyddir gan yr Awdurdod Rheoli a phartneriaid eraill, i gefnogi cyflawniad effeithiol y Rhaglen.**

Erbyn diwedd 2017 roedd tua 97% o Gyllid yr UE a oedd ar gael o dan y Flaenoriaeth hon wedi’i fuddsoddi mewn un prosiect. Y prosiect hwn oedd  gweithredu i alluogi WEFO a Chynulliad Rhanbarthol y De i reoli’r gwaith o gyflawni’r  Rhaglen.






UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop**

**European Regional Development Fund**